Senedd Elections'26

Local government is in crisis

Councils cannot invest to the benefit of constituents

Across Wales, people have seen local services disappear because politicians say there's not enough money to fund them. Having an easily accessible library, leisure centre, youth club and adult day care centre and public toilets can't be taken for granted.

When public services close, the glue that binds neighbourhoods together is loosened. Trust that political representatives are doing right by their citizens is shaken.

Years of UK government severe spending cuts have left local authorities in a dire financial situation and now core services are being impacted.

A burnt-out workforce

The local government workforce is demoralised, burnt-out from doing the jobs two people would have done in the past and by the suppression of wages for fifteen years.

Invest in councils as the preventative services

A failure to adequately fund local government preventative services over decades means society now spends even greater sums, and pushes demand, on reactive services, such as the NHS, criminal justice system and welfare.

Outsourcing damages communities

There is no evidence whatsoever that councils have improved service quality by outsourcing. Instead, staff wages and employment conditions are always squeezed and, given the local government workforce is 70% female and social care is 82% female, outsourcing discriminates against women. When workers have less money to spend in their communities, everyone loses.

20% of public money spent on outsourced services is lost in the form of profit or other mechanisms (see *The future of local government services in Wales* report, below). Millions of pounds are extracted from Wales into offshore tax havens.

Build more good quality council homes and protect the existing social housing stock Tenants living in private social housing should be able to be balloted about whether the housing stock returns to the local authority control.

UNISON is asking incoming Senedd members:

- What do you want local government to deliver and how are you going to fund it?
- What society do you want to build? World class public services must be key. Read our plan for *The future of local government services in Wales*.

UNISON Cymru

Etholiad y Senedd'26

Mae llywodraeth leol mewn argyfwng

Ni all cynghorau fuddsoddi er budd trigolion
Ledled Cymru, mae pobl wedi gweld gwasanaethau lleol yn diflannu oherwydd bod gwleidyddion yn dweud nad oes digon o arian i'w cyllido. Ni ellir cymryd yn ganiataol bod ganddyn nhw fynediad hawdd i lyfrgell, canolfan hamdden, clwb ieuenctid a chanolfan gofal dydd i oedolion, na thoiledau cyhoeddus.

Pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cau, mae'r glud sy'n clymu cymdogaethau at ei gilydd yn cael ei lacio. Mae'r gred bod cynrychiolwyr gwleidyddol yn gwneud y peth iawn ar ran eu dinasyddion wedi'i siglo.

Mae blynyddoedd o doriadau llym yng ngwariant llywodraeth y DU wedi gadael awdurdodau lleol mewn sefyllfa ariannol ddybryd, ac mae gwasanaethau craidd yn cael eu heffeithio erbyn hyn.

Gweithlu wedi llosgi allan
Mae gweithlu llywodraeth leol wedi digalonni ac wedi blino'n lân yn sgil gwneud y swyddi y byddai dau berson wedi'u gwneud yn y gorffennol ac oherwydd y cyfyngu ar gyflogau ers pymtheg mlynedd.

Buddsoddi mewn cynghorau fel y gwasanaethau ataliol
Mae methiant i gyllido gwasanaethau ataliol llywodraeth leol yn ddigonol dros ddegawdau yn golygu bod cymdeithas bellach yn gwario mwy o arian nag erioed o'r blaen ar wasanaethau adweithiol, fel y GIG, y system cyfiawnder troseddol a lles, ac yn cynyddu'r galw amdanynt.

Mae allanoli yn niweidio cymunedau
Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod cynghorau wedi gwella ansawdd gwasanaethau trwy gontractio allanol. Yn hytrach, mae cyflogau ac amodau gwaith staff bob amser dan bwysau ac, o ystyried mai menywod yw 70% o weithlu llywodraeth leol, ac 82% o weithwyr gofal cymdeithasol, mae allanoli gwaith yn camwahaniaethu yn erbyn menywod. Pan fydd gan weithwyr lai o arian i'w wario yn eu cymunedau, mae pawb ar eu colled.

Mae 20% o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar wasanaethau allanol yn cael ei golli ar ffurf elw neu fecanweithiau eraill (gweler adroddiad Dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru, isod). Mae miliynau o bunnoedd yn cael eu tynnu o Gymru i hafanau treth mewn gwledydd tramor.

Adeiladu mwy o dai cyngor o ansawdd da a diogelu'r stoc tai cymdeithasol presennol
Dylai tenantiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol preifat gael pleidleisio ynghylch a yw'r stoc tai yn dychwelyd i reolaeth yr awdurdod lleol.

Mae UNISON yn gofyn y canlynol i Aelodau newydd-etholedig Senedd Cymru:

- Beth ydych chi eisiau i lywodraeth leol ei gyflawni a sut ydych chi'n mynd i'w gyllido?
- Pa fath o gymdeithas ydych chi am ei hadeiladu? Rhaid i wasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf fod yn allweddol i hyn. Darllenwch ein cynllun ar gyfer *Dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru*.

UNISON Cymru